

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol yn Adran Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o'r effaith y disgwylir i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 ei chael.

Rwyf wedi gwneud y datganiadau sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r datganiadau hyn i'w gweld yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm hwn.

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
22 Tachwedd 2022

Rhan 1

1. Disgrifiad

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymdrin â Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 ("yr Offeryn").

Mae'r Offeryn yn mynd i'r afael â methiant cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol ac â diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Offeryn yn gwneud hyn drwy ddiwygio Rheoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 ("TARP Cymru") a Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018"). Mae hefyd yn diwygio TARP Cymru i estyn yr esemptiad o ran y gofyn i gynnal mesurau rheoli swyddogol ar rai anifeiliaid.

Mae TARP Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod llwythi anifeiliaid neu gynhyrchion anifeiliaid sy'n cael eu mewnfario i Gymru, neu sy'n teithio drwyddi, yn cydymffurfio â gofynion iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd Cyfarwyddebau, Rheoliadau a Phenderfyniadau'r UE a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny.

Roedd Rheoliadau 2018 yn nodi ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am gynnal archwiliadau ac am roi cymeradwyaeth ym maes iechyd anifeiliaid.

Mae'r Offeryn yn berthnasol i Gymru a daw i rym ar 16 Rhagfyr 2022.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r Offeryn yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r pwerau ym mharagraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac Erthyglau 48(b) a 144(6) o Reoleiddiad (UE) 2017/625.

Mae'r Offeryn yn amodol ar gymeradwyaeth Senedd Cymru trwy'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae datganiad y Gweinidogion yn Rhan 2 o'r Atodiad yn nodi'r cyfiawnhad sydd ei angen i ddefnyddio pwerau galluogi o dan y Ddeddf Ymadael.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Cafodd cyfraith yr UE ei throsi a'i chadw gan y Ddeddf Ymadael ar ddiwedd y Cyfnod Pontio yn gyfraith ddomestig ("cyfraith yr UE a ddargedwir"). Bryd hynny, roedd mewnfario anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid, ar lefel yr UE, yn dod o dan set o 12 o Gyfarwyddebau, Rheoliadau a Phenderfyniadau'r UE a restrir yn

Atodlen 1 TARP Cymru. Roedd gofyn i lwythi anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid oedd yn dod i Brydain Fawr drwy safle rheoli ffiniau gyda phen eu taith yng Nghymru, a'r rheini oedd yn teithio drwy Brydain Fawr *via* Cymru, gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a restrir yn Atodlen 1 TARP Cymru. Mae'r offeryn hwn yn cadw ac yn cynnal y polisi hwnnw a'r drefn deddfwriaethol honno.

Mae'r Esemptiadau rhag Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Safleoedd Rheoli Ffiniau (Diwygio) 2021 ("Rheoliadau 2021") yn eithrio rhai categorïau penodol o anifeiliaid rhag mesurau rheoli swyddogol ar Safleoedd Rheoli Ffiniau ("BCPs"). Nid oedd TARP Cymru wedi'i ddiwygio eto i gyd-fynd â Rheoliadau 2021. Yn ogystal, roedd angen gwneud mân waith unioni ar reoliadau 2021 gan na ddylai rhai anifeiliaid fod wedi'u heithrio rhag mesurau rheoli swyddogol yn y BCPs, a dylai rhai cyfeiriadau tacsonomig fod yn gliriach. Mae'r gwelliant yn Atodlen 3, paragraff (8) o TARP Cymru yn datrys y materion hynny.

Mae'r offeryn hwn yn gwneud diwygiadau cywiro hefyd i TARP Cymru ac i Reoliadau 2018 er mwyn unioni camgymeriadau a hepgoriadau a wnaed mewn newidiadau deddfwriaethol blaenorol.

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae newidiadau i Gyfarwydebau'r UE yn cael eu gwneud i sicrhau eu bod yn gallu gweithredu'n glir, nawr ein bod wedi ymadael â'r UE. Mae'r Cyfarwydebau yn rhan o'r fframwaith y gwnaed ein deddfwriaeth ddomestig a chyfraith yr UE a ddargedwir drwyddo felly gwaith unioni technegol yw'r newidiadau hyn i'n helpu i ddehongli a chymhwyso deddfwriaeth ddomestig a chyfraith yr UE a ddargedwir.

Mae'r Cyfarwydebau sy'n cael eu newid gan yr Offeryn yn ymwneud â gofynion iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd wrth fewnforio anifeiliaid byw a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid gan gynnwys germplasm (semen, ofa ac embryonau) i Aelod-wladwriaethau'r UE a'u symud rhyngddynt. Mae'r newidiadau'n sicrhau bod sail gyfreithiol i'r Cyfarwydebau, sy'n cynnwys rheolau manwl ar gyfer mewnforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid, yng Nghymru trwy eu hymgorffori yn ein llyfr statud.

Roedd y Cyfarwydebau hefyd yn rhoi pwerau priodol i'r Comisiwn Ewropeaidd allu gwneud a gweithredu newidiadau i deddfwriaeth ynghylch mewnforio i'r UE anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid a'u symud o fewn yr UE, ac mae'r newidiadau sy'n cael eu gwneud gan yr Offeryn yn rhoi'r pwerau perthnasol i'r awdurdod priodol allu gwneud a gweithredu newidiadau i deddfwriaeth ar gyfer mewnforio anifeiliaid a chynhyrch anifeiliaid i Gymru.

Bydd y newidiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr offeryn hwn yn cadw'r fframwaith cyfreithiol presennol yng Nghymru a Phrydain Fawr ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid. Bydd dal gofyn i nwyddau sy'n cael eu mewnforio fodloni'r amodau mewnforio penodol a osodir yn y ddeddfwriaeth ddomestig a chyfraith yr UE a ddargedwir, gan gynnwys cydymffurfio â'r gofynion mewnforio perthnasol megis y tystysgrifau iechyd cywir, profion, cwarantyn a'r amodau cludiant.

Mae'r newidiadau hyn yn bwysig i sicrhau yr amherir cyn lleied â phosibl ar fewnforion pan ddaw'r cyfnod graddoli trosiannol (TSP) i ben, a bod y mesurau rheoli mewnforion newydd yn cael eu cymhwyso'n llawn i fewnforion yr UE, unwaith y bydd y drefn archwilio mewnforion wedi'i chyflwyno'n llawn yn unol â Model Gweithredu Targed Ffiniau'r Dyfodol Llywodraeth y DU.

Mae TARP Cymru yn cael ei ddiweddarau i gyd-fynd â Rheoliadau 2021, sy'n berthnasol i Brydain Fawr gyfan ac yn estyn y categorïau anifeiliaid sydd wedi'u hesemptio rhag mesurau rheoli swyddogol ar safleoedd rheoli ffiniau, gan gynnwys anifeiliaid a ddefnyddir at ddibenion gwyddonol. Pwrpas yr esemptiadau hyn yw lleihau'r risg y byddai protestwyr hawliau anifeiliaid yn targedu BCPs sy'n cynnal y mesurau rheoli hynny ac y gellir eu cynnal yn hytrach ar safle trwyddedig yn y gyrchfan. Ar yr un pryd, mae gwaith unioni mân yn cael ei wneud i godi'r esemptiad rhag archwilio pysgod sebra mewn BCPs, a oedd wedi'i gynnwys mewn camgymeriad, ac i egluro rhai cyfeiriadau tacsonomegol yn Rheoliadau 2021.

Mae gwelliannau pellach yn cael eu gwneud i TARP Cymru i gywiro camgymeriadau a wnaed gan ddeddfwriaeth flaenorol ar gyfer Ymadael â'r UE. Mae'r rhain yn fân a thechnegol eu natur ac yn cynnwys adfer gallu Gweinidogion Cymru i orchymyn cadw cynhyrchion penodol yn y BCPs, a/neu wahardd rhagor o fewnforion o ranbarthau yr amheuir bod clefydau sŵotig ynddynt. Mae'r Offeryn hefyd yn adfer Gweinidogion Cymru ynghyd â'r Asiantaethau Gorfodi a ychwanegwyd cynt, fel y cyrff sy'n cael codi ffi resymol am weithgareddau rheoli swyddogol.

Mae'r Offeryn yn diweddarau hefyd Rheoliadau 2018 fel eu bod yn cyfeirio'n gywir at drydedd gwledydd fel unrhyw wlad neu diriogaeth y tu allan i Brydain Fawr.

5. Beth mae'r offeryn yn ei wneud

Mae TARP Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod llwythi anifeiliaid neu gynhyrchion anifeiliaid sy'n cael eu mewnforio i Gymru neu sy'n teithio drwyddi, gydymffurfio â'r gofynion iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd yng Nghyfarwyddebau, Rheoliadau a Phenderfyniadau'r UE sy'n cael eu nodi yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny. Pwrpas yr Offeryn hwn yw sicrhau bod y system

mewnforio'n parhau i ateb y diben drwy ddiwygio TARP Cymru i unioni diffygion yn y Rheoliadau hynny yn sgil ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r offeryn hefyd yn gwneud nifer fach o welliannau pellach.

Mae'r Offeryn yn:

- newid y cyfeiriadau yn Rheoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 ("TARP Cymru") at ofynion iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd a geir mewn rhestr o Gyfarwyddebau'r UE, a nodwyd yn wreiddiol yn Atodlen 1 i'r offerynnau hynny ond a nodir bellach mewn rhestr wedi'i diweddarau yn rheoliad 4(2)(a) o'r Rheoliadau hyn,
- trosglwyddo swyddogaethau, gan gynnwys pwerau deddfwriaethol, yn y cyfarwyddebau hynny oddi wrth gyrff yr UE i Weinidogion Cymru fel yr awdurdod priodol (a nodir yn rheoliad 5), ac mae'n gwneud y diwygiadau angenrheidiol i TARP Cymru i weithredu'r newidiadau hynny,
- diwygio TARP Cymru ymhellach i estyn esemptiad rhag y gofyn i gynnal mesurau rheoli swyddogol ar rai anifeiliaid,
- yn cywiro mân gamgymeriadau a wnaed mewn diwygiadau blaenorol a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae Rhan 2 o'r Offeryn yn diwygio TARP Cymru i roi'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn ar waith, i gywiro mân gamgymeriadau a wnaed mewn diwygiadau blaenorol a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (rheoliad 3(5) a (6)) ac yn diwygio Atodlen 3 mewn perthynas â chwmpas yr esemptiadau rhag y mesurau rheoli swyddogol ar safleoedd rheoli ffiniau ar gyfer anifeiliaid a fwriedir at ddibenion gwyddonol (rheoliad 3(8)).

Mae Rhan 3 o'r offeryn yn dileu Atodlen 1 TARP Cymru ac yn rhoi yn ei lle restr newydd wedi'i diweddarau o'r ddeddfwriaeth yn rheoliad 4 yn arbennig mewn perthynas â Chyfarwyddebau'r UE lle nodir Erthyglau ac Anecsau pob Cyfarwyddeb sy'n darparu ar gyfer gofynion iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd (gweler rheoliad 4(2)(a)). Yna caiff darpariaethau Cyfarwyddebau'r UE a restrir yn rheoliad 4(2)(a) eu newid yn Rhan 5. Nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r offerynnau a restrir yn rheoliad 4(2)(b) gan fod yr offerynnau hynny naill ai'n gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir, sydd wedi'u diwygio ar wahân mewn prosiectau eraill, neu yn achos Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (Cymru a Lloegr) 2009, yn ddeddfwriaeth ddomestig wedi'i diweddarau sydd (ymysg pethau eraill) yn disodli Cyfarwyddeb yr UE a'i rhagflaenodd (h.y. Cyfarwyddeb 2006/88/EC a restrwyd yn wreiddiol yn Atodlen 1).

Mae Rhan 4 o'r Offeryn yn darparu ar gyfer y rhestr o swyddogaethau yn yr Atodlen, ynghyd ag unrhyw rai o ddarpariaethau eraill Cyfarwyddebau'r UE y

mae angen eu cadw am eu bod naill ai'n berthnasol er mwyn arfer y swyddogaeth benodedig ac y dylid eu darllen gyda'r swyddogaeth honno neu sydd wedi'u cysylltu â'r swyddogaeth honno. Mae'r holl swyddogaethau rhestredig a darpariaethau ategol yn yr Atodlen yn cael eu newid yn Rhan 5. Mae'r swyddogaethau a roddir gan Gyfarwyddbau'r UE yn cael eu gwneud yn arferadwy yn yr awdurdodaeth berthnasol gan reoliad 5(2). Dylid trin y swyddogaethau fel pe baent wedi'u rhoi gan y Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 5 o'r Offeryn yn gwneud newidiadau angenrheidiol i'r gofynion ynghylch iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd, y swyddogaethau a drosglwyddwyd a'u darpariaethau ategol ym mhob Cyfarwydddeb yr UE er mwyn sicrhau bod y drefn ddeddfwriaethol ar gyfer mewnforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid yn gyfoes, yn glir, yn orfodadwy ac yn hawdd ei defnyddio. Diben y newidiadau yw unioni diffygion, ailddatgan y gyfraith mewn ffordd gliriach neu fwy hygyrch a chynnwys, lle bo angen, ddiwygiadau canlyniadol neu gysylltiedig.

Mae Rhan 6 yn diwygio Rheoliadau 2018 i gywiro mân gamgymeriad a wnaed mewn gwelliant blaenorol a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

6. Ymgynghori

Nid yw defnyddio'r Ddeddf Ymadael yn golygu bod gofyn i ymgynghori, ac nid oes unrhyw newidiadau polisi felly nid ydym yn disgwyl i'r offeryn hwn gael effaith ar randdeiliaid. Nid yw'r newidiadau hyn yn effeithio er enghraifft ar yr amodau ar gyfer mewnforio cynhyrchion anifeiliaid neu anifeiliaid neu gymeradwyo sefydliadau. Nid yw'r offeryn hwn yn rhoi unrhyw ddyletswyddau neu rwymedigaethau newydd ar ddefnyddwyr neu asiantaethau gorfodi. Bydd y newidiadau hyn yn caniatáu i'r rheolau presennol barhau mewn grym yng Nghymru yn dilyn ein hymadawiad â'r UE.

Mae gofyn ymgynghori ar newidiadau oherwydd rheoliad 3(8) sy'n diwygio Atodlen 3, paragraff (8) o TARP Cymru. Cafodd yr ymgynghoriad ei arwain gan Lywodraeth y DU ar lefel Prydain Fawr yn 2021 ac roedd yr ymatebion yn ffafriol iawn.

7. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Barnwyd nad oedd angen cynnal asesiad effaith rheoleiddio o ran costau a manteision tebygol cydymffurfio

â'r Rheoliadau hyn. Mae swyddogion o'r farn bod hyn yn rhan o'r newid yn dilyn ymadawiad yr Undeb Ewropeaidd i drefn rheoli ffiniau a mewnforyn hirdymor y DU.

Atodiad: Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Rhan 1: Tabl o Ddatganiadau o dan Ddeddf 2018

Mae'r tabl hwn yn nodi'r datganiadau y gall fod gofyn i Weinidogion eu gwneud o dan Ddeddf 2018. Mae'r tabl hefyd yn nodi'r datganiadau hynny y gall fod gofyn i Weinidogion y Goron eu gwneud o dan Ddeddf 2018, y mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i'w darparu hefyd pan fydd angen. Mae'r datganiadau gofynnol i'w gweld yn Rhan 2 o'r atodiad hwn.

Datganiad	Ble mae'r gofyniad hwn	I bwy y mae'n gymwys	Beth sy'n ofynnol
Sifftio	Paragraffau 3(7) a 4(3), Atodlen 7 Rheol Sefydlog 27.1A	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 i wneud OS Negyddol. Mae para 3(7) yn ymwneud â Gweinidogion y Goron, ond mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad	Datganiad i esbonio pam y dylai'r offeryn ddod o dan y weithdrefn negyddol ac os ydynt yn gymwys, pam y maent yn anghytuno ag argymhelliad y Pwyllgor LJC (fel y pwyllgor sifftio)
Priodoldeb	Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron wrth arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i ddweud nad yw'r OS yn gwneud mwy nag sy'n briodol.
Rhesymau da	Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron wrth arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a	Datganiad i esbonio'r rhesymau da dros wneud yr offeryn a bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn rhesymol.

		23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	
Cyd-raddoldebau	Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron wrth arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i esbonio pa ddiwygiadau, diddymiadau neu ddirymiadau sy'n cael eu gwneud, os o gwbl, i Ddeddf Cydraddoldebau 2006 a 2010 a deddfwriaeth a wnaed o danynt. Datganiad fod y Gweinidog wedi rhoi'r sylw priodol i'r angen i ddiddymu gwahaniaethu ac ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
Esboniadau	Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron wrth arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i esbonio'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, esbonio effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am bwrpas yr offeryn e.e. ai dim ond newidiadau mân neu dechnegol a fwriedir i gyfraith yr UE a ddargedwir.
Troseddau	Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron wrth arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad yn rhoi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd, a'r gosb gysylltiedig
Is-ddirprwyo	Paragraff 30,	Yn gymwys i	

	Atodlen 7	<p>Weinidogion y Goron wrth arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a pharagraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na chaiff Gweinidog y Goron neu Awdurdod Datganoledig ei arfer.</p> <p>Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 neu baragraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na chaiff Gweinidog y Goron neu Awdurdod Datganoledig ei arfer.</p>	Datganiad i esbonio pam ei bod yn briodol creu pŵer is-ddirprwyedig o'r fath.
Brys	Is-baragraff (2) ac (8) o baragraff 7, Atodlen 7	Gweinidogion Cymru wrth arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 ond gan ddefnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraff 7 o Atodlen 7	Datganiad y mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen gwneud OS gan ddefnyddio'r weithdrefn frys a'r rhesymau am y farn honno.

Rhan 2

Y datganiadau sydd eu hangen wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

1. Datganiad ynghylch priodoldeb

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Nid yw Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 yn gwneud mwy na'r hyn sy'n briodol. Y rheswm am hynny yw am mai unig ddiben yr holl newidiadau sy'n cael eu gwneud yw mynd i'r afael â diffygion presennol neu i gywiro camgymeriadau blaenorol a wnaed gan deddfwriaeth sy'n deillio o ymadael â'r UE.”

2. Rhesymau da

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, mae rhesymau da dros y darpariaethau yn Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022, ac rwyf wedi dod i'r casgliad eu bod yn rhesymol. Bydd y newidiadau'n sicrhau bod y mesurau rheoli swyddogol ar fewnforio anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid yn effeithiol drwy ddiogelu iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd ym Mhrydain Fawr. Nid ydynt yn gwneud unrhyw newidiadau i bolisi ond yn hytrach yn cynnal, yn cydgordio ac yn ymgorffori'n llawn y rheolau a oedd ar waith o'r diwrnod ymadael ymlaen.”

3. Cydraddoldebau

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd wedi gwneud y datganiad canlynol:

“Nid yw Rheoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2022 yn diwygio, yn diddymu nac yn dirymu darpariaeth na darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 nac yn Neddf Cydraddoldeb 2010 nac is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau hynny”

Mae’r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Mewn perthynas â Rheoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2022, yr wyf i, Lesley Griffiths, wedi rhoi’r sylw dyladwy i’r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.”

4. Esboniadau

Mae’r datganiad ynghylch Esboniadau wedi’i wneud ym mharagraff 4 (diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael) ym mhrif gorff y memorandwm esboniadol hwn.

5. Troseddau

Ddim yn gymwys/Yn ddiangen.

6. Is-ddeddfwriaeth

Ddim yn gymwys/Yn ddiangen.

7. Brys

Ddim yn gymwys.